# Cynllunio deiet a gweithredu cyfundrefnau bwydo ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio deiet a gweithredu cyfundrefnau bwydo ar gyfer ceffylau. Dylech allu adnabod gofynion deietegol ceffylau a phenderfynu faint o fwyd sydd ei angen. Bydd hefyd angen i chi ymdrin ag unrhyw atchwanegiadau angenrheidiol i'r deiet a gofynion deietegol arbennig. Mae'n hanfodol bod eich gwaith yn nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol mewn gofynion deietegol ac yn caniatáu newidiadau i'r dogn.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r gofynion deietegol o ran maeth ar gyfer ceffylau a chynllunio eu deiet, yn cynnwys porthiant, dwysfwydydd a dwr
2. sefydlu maint ac amlder bwydo
3. nodi unrhyw atchwanegiadau neu ychwanegiadau angenrheidiol i'r deiet
4. nodi a chofnodi gofynion deietegol arbennig
5. gweithredu cyfundrefnau bwydo sy'n ystyried y polisi bwydo a gofynion y ceffyl, ac yn caniatáu newidiadau i'r dognau
6. addasu dognau i fodloni newidiadau yng ngofynion deietegol y ceffyl ac i wella iechyd a llesiant y ceffyl
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ffactorau all effeithio ar gynllunio deiet a chyfundrefnau bwydo ar gyfer ceffylau
2. effeithiau argaeledd, tymoroldeb a chostau ar ddeiet a chyfundrefnau bwydo
3. y gofynion deietegol ar gyfer ceffylau: porthiant, dwysfwydydd a dwr
4. y mathau o fwydydd, paratoi bwyd a dewisiadau amgen i wair
5. y mathau o ychwanegiadau neu atchwanegiadau deietegol a'r rhesymau dros eu cynnwys yn y deiet
6. y clefydau a'r salwch sydd yn gofyn am ddeiet arbennig
7. anatomeg a swyddogaeth y system draul
8. y rhesymau dros ddefnyddio systemau bwydo gwahanol
9. pwysigrwydd gwerthuso'r camau a gymerir wrth ymdrin ag unrhyw broblemau yn cynllunio deiet a gweithredu cyfundrefnau bwydo ar gyfer ceffylau
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cyfundrefnau bwydo:

- hwsmonaeth arferol
- gofynion deietegol arbennig

Gofynion deietegol:

- porthiant
- dwysfwydydd
- dŵr
- atchwanegiadau ac ychwanegiadau

Cynllunio dognau bwydo, gan ystyried:

- arfer da presennol
- pwysau corff y ceffyl
- cyflwr y ceffyl
- lefel y gwaith
- math a natur (yn cynnwys ceffylau blinedig, sâl neu ffwdanus)

Cynllunio cyfundrefnau bwydo effeithiol gan ystyried:

- argaeledd bwyd a phorthiant
- tymoroldeb
- costau a bwydydd a phorthiant

## Geirfa

Ffactorau sy'n effeithio ar ddeiet a chyfundrefnau bwydo:

- pwysau'r corff
- oed
- cyflwr atgenhedlu
- cyflwr
- lefel a'r math o waith
- math a natur y ceffyl
- blinder
- ceffylau sâl a ffwdanus
- polisi bwydo

LANEq304

Cynllunio deiet a gweithredu cyfundrefnau bwydo ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq304 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; bwyd; dŵr; deiet; dogn; maeth; iechyd a lles anifeiliaid |